# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD IAU, 25 CHWEFROR 2016

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr**, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Brian Jones, Eric M. Jones, Michael Sol Owen, W Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a R.H. Wyn Williams.

**Swyddogion:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd am 2015/16.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R H Wyn Williams yn Is Gadeirydd am 2015/16**.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards a John Wyn Williams

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

Dilwyn Williams ar gyfer yr eitem 7. Nododd nad oedd yna unrhyw fwriad i drafod cyflog y Prif Weithredwr ond gan fod ei gyflog yn cael ei nodi yn y Polisi Tal, pe byddai yna unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw, byddai'n gadael y cyfarfod.

Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) yn eitem 7 ar y rhaglen gan fod ei swydd yn cael ei ystyried yn swydd prif swyddog ac felly yn destun y Polisi Tal.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24.2.15, 6.3.15 a 26.3.15 fel rhai cywir

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TÂL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr Adroddiad Polisi Tâl gan y Prif Weithredwr. Eglurwyd bod dyletswydd statudol ar holl gynghorau Cymru i fabwysiadu Polisi Tâl i'w staff yn flynyddol. Mae'r ddarpariaeth statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i hyn fod yn swyddogaeth y Cyngor Llawn.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Penodi gynghori'r Cyngor ar ei Bolisi Tâl ar gyfer 2016/17. Bydd y Polisi Tâl yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar Fawrth y 3ydd.

Yn ei gyflwyniad, amlygodd y Prif Weithredwr mai ychydig iawn o addasiadau oedd i'r polisi tal ar gyfer 2016/2017. Amlygwyd nad oedd newidiadau pellach i gyfrifoldebau ar lefel Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr Corfforaethol wedi eu cyflwyno yn ystod 2015/2016, ac felly nid oedd arfarniad o'r newydd wedi ei gynnal ar gyfer 2016/2017. Cyfeiriwyd at y polisi presennol sydd yn nodi'r angen i feincnodi cyflogau Prif Swyddogion yn erbyn y farchnad. Nodwyd bod y mater wedi ei drafod gyda'r Penaethiaid a'r Cyfarwyddwyr a bod pawb yn gytûn nad oedd yn amserol, yn wyneb yr hinsawdd gyllidol, i adolygu'r meincnodau eleni.

Yng nghyd-destun y cyflogau isaf nodwyd bod Canghellor y Trysorlys mewn datganiad cyllidebol ar yr 8fed o Orffennaf 2015 wedi nodi'r angen i osod £7.20 yr awr fel 'cyflog byw' oddi ar y 1af o Ebrill, gan godi i £9.00 yr awr erbyn Ebrill 2020 (ar gyfer gweithwyr 25 oed a hyn). O ganlyniad bydd rhaid ystyried beth fydd yr ardrawiad ar y Cyngor a'r costau sylweddol fydd yn ei wynebu. Gydag incwm y Cyngor yn un sydd wedi ei osod, ymddengys mai toriadau pellach fydd effaith hyn.

Amlygwyd bod y 'Cyflog Byw' yn ddiffiniad gan y Sefydliad Cyflog Byw - sefydliad cyhoeddus wedi ei sefydlu i gynnig fformiwla ddamcaniaethol o gyfuniad oriau, tal a lleoliadau ar draws y wlad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r mater nad yw'r Cyngor yn eithrio cyn swyddogion gael eu hail gyflogi, nodwyd na ellid rhoi cymal yn y datganiad ar sail eithriad. Ychwanegwyd bod y nifer o swyddogion sydd yn cael eu hail gyflogi yn isel iawn (yn cael eu cyflogi yn achlysurol, wrth gefn neu ar gyfer prosiectau penodol). Amlinellwyd bod hyn yn berthnasol i weithwyr llywodraeth leol yn unig ac nad oedd yn cynnwys staff ysgolion. Awgrymwyd bod posib adrodd ar hyn petai'r Pwyllgor yn dymuno hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am y cyflwyniad.

**DERBYNIWYD YR ADRODDIAD YN UNFRYDOL YN UNOL Â'R ARGYMHELLION ISOD.**

- **Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (draft) i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2016 / 17.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**